Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG51499**

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Ymgynghoriad ar yr Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy drafft

Ionawr 2025

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-393-0

## Trosolwg

Mae natur yn dirywio'n fyd-eang ar gyfraddau sy'n ddigynsail mewn hanes dynol ac mae cyfradd difodiant rhywogaethau yn cyflymu. Rhaid wrth gamau parhaus a thrawsnewidiol i wynebu heriau'r argyfwng natur. Bydd cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer adfer natur yn gofyn am lefelau sylweddol uwch o gyllid. Daeth Adroddiad y Bwlch Cyllid ar gyfer Natur y DU i'r casgliad bod Cymru yn wynebu bwlch ariannol o £5-7 biliwn ar gyfer targedau sy'n gysylltiedig â natur dros y 10 mlynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys y cyllid sydd ei angen i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, yn ogystal â meysydd eraill fel gwella ansawdd dŵr a lliniaru effeithiau newid hinsawdd.

Mae'r Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy drafft hyn yn cynrychioli nod Llywodraeth Cymru o gynyddu ac arallgyfeirio'r cyllid sydd ar gael fel y gallwn fynd i'r afael yn effeithiol â'r argyfwng natur a'r pwysau sy'n arwain at golli bioamrywiaeth – gan gynnwys newid hinsawdd, llygredd, a rheoli adnoddau naturiol mewn modd anghynaliadwy. Cafodd yr Egwyddorion drafft eu cyd-ddatblygu gan grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i gynnal gan Lywodraeth Cymru. Roedd cyfranogwyr y grŵp yn cynnwys swyddogion polisi, sefydliadau amgylcheddol nid-er-elw, awdurdodau cyhoeddus a chydweithwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: sustainable.finance@llyw.cymru

## Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy drafft

# Cynnwys

Trosolwg.................................................................Error! Bookmark not defined.
Cynnwys........................................................................................................ 3
Methodoleg ................................................................................................... 4
Trosolwg ymatebwyr ........................................................................................ 4
Dadansoddiad o amlder geiriau ........................................................................ 6
Cwestiwn 1: Beth yw eich barn am yr egwyddorion arfaethedig? ............................ 7
Cwestiwn 2: Beth yw eich barn ar sut y gellir cymhwyso'r egwyddorion i ddarparu atebion sy'n seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystem?.................................. 13
Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod ein dull arfaethedig yn ategu gwerthoedd/safonau cynlluniau a chodau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?.... 16
Cwestiwn 4: Beth yw eich barn am ein dull arfaethedig o archwilio cyllid cynaliadwy yng Nghymru?............................................................................................... 17
Cwestiwn 5: Beth ydych chi'n meddwl yw'r rhwystrau sy'n atal pobl a chymunedau Cymru rhag cymryd rhan mewn adferiad natur? .............................................. 20
Cwestiwn 6: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt. ............................................................... 24
Cwestiwn 7: Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol yr Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy ar y Gymraeg? ............................................................ 26
Cwestiwn 8: Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy?............................................................................... 28
Datganiad ar y camau nesaf ......................................................................... 28

## Methodoleg

Nod yr ymgynghoriad oedd cael barn sefydliadau ac unigolion ar yr Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy sy'n cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 3 Medi 2024 a 3 Rhagfyr 2024 ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan ymgynghori agored Llywodraeth Cymru. Dewis gwirfoddol unigolion a sefydliadau â buddiant oedd ymateb, a chafodd tri dull i wneud hynny ei gynnig: porth ar-lein, ymateb ar e-bost neu drwy'r post. Roedd croeso i ymatebion Cymraeg a Saesneg. Yn ogystal, roedd fersiynau hawdd eu deall o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rhoddwyd ffurflen ymateb strwythuredig i bob ymatebwr. Fodd bynnag, dewisodd rhai ymatebwyr ddarparu atebion ffurf hir yn hytrach na defnyddio'r fformat strwythuredig. Yn ogystal, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarparu gwybodaeth gefndirol am eu sefydliad, gweithgareddau'r sector a'u hunaniaeth Gymreig. Gofynnwyd wyth cwestiwn i ymatebwyr am yr Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy sy'n cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r cwestiynau hynny wedi'i rhestru isod:

1. Beth yw eich barn am yr egwyddorion arfaethedig?
2. Beth yw eich barn ar sut y gellir cymhwyso'r egwyddorion i ddarparu atebion sy'n seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystem?
3. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod ein dull arfaethedig yn ategu gwerthoedd/safonau cynlluniau a chodau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?
4. Beth yw eich barn am ein dull arfaethedig o archwilio cyllid cynaliadwy yng Nghymru?
5. Beth ydych chi'n meddwl yw'r rhwystrau sy'n atal pobl a chymunedau Cymru rhag cymryd rhan mewn adferiad natur?
6. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt.
7. Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol yr Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy ar y Gymraeg?
8. Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy [er mwyn darparu ar gyfer y Gymraeg yn well]?


Unwaith i'r holl ymatebion gael eu casglu, fe'u cyfunwyd ar ffurf Excel fesul cwestiwn gan gelu enwau yn ôl yr angen. Nid oedd rhai ymatebion yn mynd i'r afael â'r cwestiynau yn uniongyrchol, tra bod eraill yn ceisio ateb pob cwestiwn o fewn Cwestiwn 1 neu 2. Er mwyn ymdrin ag ymatebion heb strwythur, cynhaliwyd dadansoddiad thematig yn ôl cwestiwn. Roedd hyn yn helpu i drefnu'r data a nodi patrymau allweddol ar draws ymatebion. Yn ogystal, cynhaliwyd dadansoddiad o amlder geiriau yn RStudio er mwyn nodi'r 10 gair a oedd yn cael eu defnyddio amlaf ar gyfer pob cwestiwn.

## Trosolwg o ymatebwyr

Cafwyd 42 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda 28 wedi dod i law drwy e-bost a 14 wedi dod i law drwy'r ffurflenni ar-lein. Saesneg oedd iaith pob un o'r 42 ymateb.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarparu ystod o wybodaeth gefndirol yn ymwneud â'u sefydliad, blaenoriaethau'r sector a'u bwriadau.

O'r ymatebion hyn, roedd chwech gan unigolion a 36 gan sefydliadau. Ymhlith yr ymatebwyr a nododd eu math o sefydliad, roedd 19.0% (n = 8) o'r trydydd sector neu'n elusen, 14.3% o'r sector cyhoeddus (n = 6), 9.5% yn fusnesau unigol (n = 4) a 9.5% yn undebau llafur neu'n gynrychiolwyr (n = 4). Roedd gweddill yr ymatebwyr yn unigolion (4.8%), sefydliad ymbarél (2.4%) ac eraill (14.3%). Ni ddarparwyd y wybodaeth hon gan dros chwarter yr ymatebwyr (Ffigur 1A).





**Ffigur 1. Cyfrif (amlder) ymatebion gwybodaeth gefndir gan gyfranwyr i'r Ymgynghoriad Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru.** **A)** Dosraniad o'r ymatebwyr yn ôl math o sefydliad. **B)** Dosraniad o'r sector sylfaenol y mae ymatebwyr yn perthyn iddo. **C)** Maes ffocws penodol sy'n berthnasol i ymatebwyr. **D)** Sector allyriadau allweddol sy'n berthnasol i ymatebwyr.

Roedd ymatebion yn aml yn rhychwantu sawl sector sylfaenol; fodd bynnag, amaeth (n = 15) a choedwigaeth (n = 10) oedd yn cael eu nodi amlaf. Dŵr oedd y sector sylfaenol ar gyfer 9 ymateb, tra bod pysgota (n = 6), nwy a thrydan (n = 4) a mwyngloddio a mwynau (n = 2) yn llai cyffredin (Ffigur 1B). Roedd ffocws penodol ymatebwyr i raddau helaeth ar gynaliadwyedd (n = 16), ac yna iechyd (n = 7) a sgiliau (n = 6), lliniaru tlodi (n = 3), yna oedran (n = 2), a'r Gymraeg (n = 2). Nodwyd

anabledd a phriodas a phartneriaethau sifil hefyd, mewn un ymateb yr un (Ffigur 1C). Pan ofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, ni ddarparwyd ateb gan 30 ymatebydd, dywedodd 10 nad oeddent, a nododd dau eu bod yn siarad Cymraeg ond dewisodd y ddau ymateb yn Saesneg. Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd pa sectorau allyriadau y maent yn cyfranogi ynddynt. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn ymdrin ag allyriadau amaethyddol (n = 13), ac yna coedwigaeth a defnydd tir (n = 11) a'r sector cyhoeddus (n = 9) (Ffig 1D).

## Dadansoddiad o amlder geiriau

Defnyddiwyd dadansoddiad o amlder geiriau i nodi'r 10 gair mwyaf cyffredin yn yr ymatebion i bob cwestiwn. Defnyddiwyd y canlyniadau i nodi nodweddion cyffredin ar draws cwestiynau.




**Ffigur 2. Map gwres o eiriau a oedd yn codi'n aml.** Map gwres sy'n nodi'r geiriau mwyaf cyffredin (echelin Y) wrth ymateb i wyth cwestiwn (echelin X) ar yr Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy. Ar gyfer pob cwestiwn, nodwyd y 10 gair a oedd yn codi amlaf ar draws uchafswm o 42 ymateb. Mae'r lliwiau tywyllach yn cyfleu'r geiriau sy'n digwydd yn amlach, gyda'r lliwiau goleuach yn cyfleu'r geiriau llai cyffredin.

Ar gyfer cwestiwn un, roedd y geiriau a oedd yn codi'n aml iawn yn cynnwys 'egwyddor/egwyddorion', 'buddsoddiad' a 'natur'. Geiriau eraill a oedd yn codi'n gyffredin oedd 'Cymru', 'cynaliadwy', 'deilliannau', 'tir', 'amgylcheddol' a 'manteision'. Roedd geiriau a oedd yn gorgyffwrdd rhwng cwestiwn un a dau yn cynnwys 'cynaliadwy', 'egwyddorion', 'natur' a 'buddsoddiad'. Y chwe gair arall a oedd yn codi amlaf ar gyfer cwestiwn dau oedd 'atebion', 'prosiectau', 'seiliedig ar natur', 'lleol', 'llywodraeth' a 'carbon'.
O gwestiynau un i wyth, roedd amlder geiriau allweddol yn disgyn yn gyffredinol oherwydd ymatebion byrrach neu ddiffyg ymateb, a dyna pam mai ar gyfer cwestiynau un a dau yn unig y mae crynodeb o'r geiriau sy'n codi amlaf. Fodd bynnag, ymddengys mai 'Cymreig', 'Cymru', 'egwyddorion', 'natur' a 'buddsoddiad' sydd â'r dosraniad ehangaf, sy'n rhychwantu bron pob cwestiwn (Ffigur 2).

Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y termau "mwyafrif", "llawer," "sawl un" a "rhai" i ddisgrifio nifer yr ymatebion fel a ganlyn:

- Mae "mwyafrif" yn cyfeirio at 22 neu fwy o ymatebion (22 ≤ ymateb).
- Mae "llawer" yn cyfeirio at rhwng 11 a 21 o ymatebion (11 ≤ ymateb ≤ 21).
- Mae "sawl [ymateb]" yn cyfeirio at rhwng 5 a 10 o ymatebion (5 ≤ ymateb ≤ 10).
- Mae "rhai" yn cyfeirio at rhwng 1 a 4 o ymatebion (1 ≤ ymateb ≤ 4).

## Cwestiwn 1: Beth yw eich barn am yr egwyddorion arfaethedig?

41 o 42 ymateb.

Crynodeb: Roedd llawer o ymatebion yn croesawu'r egwyddorion, gan ddweud eu bod "yn gadarn ac yn gyson ag egwyddorion eraill ar gyfer buddsoddi cynaliadwy." Roedd sawl un o'r ymatebion yn teimlo bod "yr egwyddorion arfaethedig yn cysylltu ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ac yn cyd-fynd â nifer o'r nodau llesiant". Fodd bynnag, roedd mwyafrif yr ymatebion yn cynnig beirniadaeth adeiladol bod angen ehangu a chryfhau egwyddorion. Er enghraifft, egwyddor un i gynnwys defnydd o wely'r môr, neu fod egwyddorion yn dibynnu'n ormodol ar ddata perffaith a marchnadoedd natur a/neu gredydau. Mae rhai ymatebion yn nodi bod "egwyddorion yn dal i ymddangos yn rhy ddibynnol ar ddatblygiad er elw wedi'i arwain gan y farchnad, cynnydd i gyllid ar gyfer gwasanaethau ecosystem ac atebion sy'n seiliedig ar natur". Yn ogystal, mae ceisiadau'n cynnwys "yr angen am fwy o fanylion, yn enwedig o ran atebion sy'n seiliedig ar natur a chyllid ar gyfer adfer natur".

### Dadansoddiad thematig

**Eglurder:** Mae sawl un o'r ymatebwyr yn tynnu sylw at ddiffyg eglurder, fframio a gwybodaeth am brosesau presennol sy'n llesteirio eu hymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru yn dweud na allant "darparu ymateb llawn ac ystyriol i'r egwyddorion, gan nad oes digon o wybodaeth yn yr ymgynghoriad am weithredu'r egwyddorion arfaethedig ar gyfer ymarferwyr a'r prosesau presennol". Mae ymateb arall wedi amlygu'r angen am ystyriaeth bellach o atal a'r ffyrdd hirdymor o weithio, a allai gael "eu hadlewyrchu orau o dan yr ail egwyddor".

Yn gyffredinol, mae NFU Cymru yn cefnogi'r egwyddorion, ond dywed: “nid yw'r defnydd ymarferol o'r egwyddor/egwyddorion yn glir, na pha fecanweithiau sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag achosion lle canfyddir nad yw hyn yn wir. Nid yw'r ymgynghoriad yn cynnwys esboniad clir o sut a chan bwy y mae'r egwyddorion yn cael eu rhoi ar waith, na sut y mae bwriad i'r egwyddorion ddylanwadu ar wneud penderfyniadau...Mae NFU Cymru hefyd yn ansicr sut y bydd yr angen am ymgysylltu a chydweithio arfaethedig gyda chymunedau lleol yn digwydd yn ymarferol.” Mae Adran Amgylchedd Naturiol Cyngor Abertawe yn ategu'r pryderon hyn, gan ddweud “nid yw'r egwyddorion eu hunain yn mynd i sicrhau egwyddorion cynaliadwy. Byddai angen fframwaith cadarn, manylion pellach ar eu gweithrediad (gan gynnwys stiwardiaeth) a mesurau eraill er mwyn i'r egwyddorion ddylanwadu ar fuddsoddiad.” Ailadroddwyd hynny gan Grŵp Llywio Megaddalgylch Bannau Brycheiniog a ddywedodd: “rydyn ni wedi profi diffyg cyfeiriad clir ar ba faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn cyflawni targedau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn gofyn nid yn unig am eglurder ynghylch yr union ddeilliannau a graddfa'r cyflawni sydd ei angen, ond hefyd am gyfuno uchelgeisiau gan y cyrff hynny, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn aml, sydd yn meddu ar yr adnoddau a'r dystiolaeth i arwain ar gyflawni.”

**Pontio teg i sero net**: Nododd llawer o ymatebwyr fod angen cysylltiad cryfach â phontio teg i sero net, a thargedau carbon Cymru. Dywedodd Tirweddau Cymru nad yw sero net “yn cael ei ystyried yn ddigon manwl a bod methiant i ystyried yr angen am bontio teg (h.y. sut mae amddiffyn rhag risgiau gweithgaredd datgarboneiddio yn arwain at ganlyniadau negyddol i'n cymunedau). Mae angen manylion pellach ar ddulliau o greu a rhannu manteision sydd o fudd i fuddiannau cyhoeddus, preifat a chymunedol, gan hefyd gyfrannu at bontio teg ar yr un pryd. Er y byddai'n well gennym atebion sylfaenol dan arweiniad lleol i sicrhau cyllid preifat na phrynu tir gan gorfforaethau mawr, absennol, er enghraifft, byddem am weld unrhyw fuddsoddwr yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Ddeddf a'r pum ffordd o weithio.” Mae Cyngor Sir Fynwy hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd “pontio teg i gynhyrchu bwyd cynaliadwy” ac yn holi am bwyslais cryfach ar egwyddorion sero net.

**Cyfranogwyr y farchnad**: Mae sawl un o'r ymatebion yn tynnu sylw at bwysigrwydd buddsoddwyr wrth gyflawni'r egwyddorion hyn, gan gynnwys y Sustainable Soils Alliance: “byddai'r Egwyddorion drafft yn elwa ar gael cydnabyddiaeth glir o botensial economaidd cydgasglu gwahanol wasanaethau a buddsoddwyr, ac ymrwymiad i gynnwys cymaint o'r cyfranogwyr hynny â phosibl. Byddai hyn yn anfon neges gref i'r sectorau busnes a'r darpar fuddsoddwyr fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i alluogi i'r eithaf eu rôl yn adferiad natur.” Mae Banc hefyd yn gofyn am eglurder ynghylch pa fathau o fuddsoddwr y mae'r egwyddorion yn berthnasol iddynt – perchnogion a/neu reolwyr asedau, eu priod gyfrifoldebau a'u datgeliadau.

Mae Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn nodi bod “angen gwneud Cymru'n ddeniadol i fuddsoddwyr. Mae hefyd angen sicrhau chwarae teg, megis Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu Safonau Gofynnol Cenedlaethol a symleiddio llwybrau buddsoddi. Yn ogystal, “bydd angen ystyried y mater o daliadau ar gyfer gwasanaethau ecosystem. Ar hyn o bryd, mae hyn wedi tueddu i olygu taliadau i dirfeddianwyr/ffermwyr gan y llywodraeth am gynnal neu wella sut maen nhw'n rheoli tir (a hynny'n gyfyngedig o ran graddfa a'r gallu i'w atgynhyrchu). Fodd bynnag, mae'r manteision yn cronni ar gyfer ystod eang o gyfranogwyr.” Mae

Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn “pwysleisio’r ffocws ar amddiffyn/gwella sy’n economaidd hyfyw i natur drwy gydweithio. e.e. ymgysylltu â’r sector preifat ynghylch coedwigaeth a thwristiaeth proffidiol a chynaliadwy, sy’n bositif i fyd natur”.

Mae NFU Cymru yn gofyn am fwy o bwyslais ar ffermwyr yn egwyddor 1, “sy’n rheoli dros 80% o’r tir yng Nghymru ac sy’n ddibynnol ar y tir am eu bywoliaeth. Lle mai nhw yw’r darparwyr, nhw ddylai fod yn cael y budd mwyaf hefyd.” Mae NFU Cymru hefyd yn nodi, “nid yw’r egwyddorion arfaethedig yn mynd i’r afael yn ddigonol â’r newid sylfaenol sy’n ofynnol gan lawer o fuddsoddwyr posibl (o sefyllfa o gyllidebu ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf untro ar gyfer seilwaith caled i ffrydiau refeniw hirdymor ar gyfer newidiadau parhaus o ran rheoli tir) sy’n debygol o fod yn ofynnol os yw marchnadoedd ar gyfer atebion ar sail natur yn mynd i gael eu gwireddu.” Mae WWF Cymru yn pwysleisio: “ni ddylai egwyddorion Llywodraeth Cymru eithrio buddsoddiadau hinsawdd a natur gan dirfeddianwyr newydd, hyd yn oed os nad ydyn nhw’n defnyddio tir mewn ffyrdd traddodiadol”, ac na ddylent gael eu “cyfyngu i’r rhai sydd â chyfoeth sylweddol eisoes, neu’n mynd i etifeddu cyfoeth o’r fath.” Dywedodd ymatebydd unigol: “ni fydd yr egwyddorion yn effeithiol oni bai bod yna atebolrwydd troseddol o ran llygrwyr, a’u bod yn cael eu gorfodi’n briodol.”

**Cryfder geiriad:** Roedd rhai ymatebwyr yn beirniadu’r egwyddorion yn benodol oherwydd natur eu geiriad. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn nodi diffyg pwyslais ar adfer natur, “yn enwedig yng nghyd-destun Cymru, sydd yn angenrheidiol er mwyn bodloni rhwymedigaethau bioamrywiaeth byd-eang. Dylid cryfhau’r geiriad i ganolbwyntio ar adfer natur, gan nad oes digon o bwyslais ar uniondeb amgylcheddol yn y geiriad fel ag y mae.” Mae’r angen am eiriad mwy cadarn yn cael ei ategu gan RSPB Cymru, sy’n tynnu sylw at “ddiffyg datganiadau ‘rhaid’ a llawer iawn o ddatganiadau ‘dylai’, a byddai cryfhau iaith yr egwyddorion yn darparu arwydd mwy clir i gyfranogwyr y farchnad.” Mae Cymdeithas y Pridd Cymru yn awgrymu bod “angen i unrhyw bolisi ar farchnadoedd amgylcheddol gwirfoddol fel ateb hinsawdd a natur hefyd ystyried y dewisiadau amgen, ac a fyddai dull a reoleiddir yn cyflawni mwy ar gyfer lliniaru hinsawdd na hyd yn oed marchnad wirfoddol o ansawdd uchel sydd wedi’i llywodraethu’n dda.”

**Ychwanegedd**: Mae sawl un o’r ymatebion yn mynegi pryder ynghylch ychwanegedd, “lle gallai hynny gael effaith niweidiol ar allu i geisio buddsoddiad ar hyn o bryd”. Dywed Cyngor Sir Powys y gallai hyn gael effaith negyddol “ar hamdden awyr agored cynaliadwy a thrafnidiaeth carbon isel, megis hawliau tramwy a rheoli llwybrau beiciau...ni ddylai’r egwyddorion atal buddsoddiad mewn gwaith hanfodol i wella neu ofalu am asedau cyfredol sy’n cyfrannu at y deilliannau hyn, dim ond oherwydd yr awgrym ei fod yn ‘statudol’”. Mae Ymddiriedolaethau Natur Cymru “yn pryderu nad oes lle i sicrhau cyllid ychwanegol a/neu breifat ar gyfer safleoedd dynodedig. Mae’r rhan fwyaf o safleoedd gwarchodedig mewn cyflwr gwael ac wedi bod ers amser maith – nid oes digon o arian nac adnoddau i’w gwella i’r cyflwr gofynnol a’u cadw fel hynny, ac mae hynny’n annhebygol o newid – felly mae angen ffynonellau cyllid amgen ar gyfer y safleoedd hyn hefyd.”

**Egwyddorion ychwanegol neu wedi’u haddasu**: Mae rhai ymatebion yn cynnig egwyddorion ychwanegol neu awgrymiadau i addasu egwyddorion presennol i gryfhau’r fframwaith ymhellach. Mae Coed Cadw yn awgrymu bod “angen egwyddor ychwanegol sy’n datgan yn glir mai pwrpas buddsoddi cyfrifol yw gwarchod ac adfer

cynefinoedd unigryw (megis mawndir a choetir hynafol). Yn yr un modd, o ran deilliannau hinsawdd, mae angen datganiad o bwrpas i sicrhau bod buddsoddiad cyfrifol mewn atafaelu carbon yn cwmpasu allyriadau gweddilliol gwirioneddol anochel, yn hytrach na thalu er mwyn gallu parhau i lygru.” Mae Coed Cadw yn mynegi pryder pellach ynghylch atal gwyrddgalchu, cyfrifoldeb endidau corfforaethol preifat a chydnabyddiaeth i’r Gymraeg a diwylliant Cymreig, a’r angen i addasu’r egwyddorion drafft presennol i gryfhau’r agweddau hynny. Mae pryderon mwy penodol gan yr Anaerobic Digestion and Bioresources Association, yn cynnwys “diffyg cydnabyddiaeth ddigonol o reoli gwastraff ac adfer adnoddau organig fel sbardunau allweddol i wella’r amgylchedd”, ynghyd â “chanllawiau cyfyngedig ar fethodolegau i fesur manteision gostwng a chael gwared ar nwyon tŷ gwydr.” Ar ben hynny, mae’r egwyddorion yn “methu â gwahaniaethu rhwng atebion amgylcheddol dros dro a pharhaol”.

**Cydweddu fframweithiau:** Er bod y pwnc hwn wedi cael sylw penodol yng nghwestiynau tri, cynigiodd llawer o’r ymatebion i gwestiwn un farn bod yr egwyddorion yn cydweddu’n dda â’r fframweithiau presennol. Mae sawl un o’r ymatebion yn cynnig syniadau pellach ar sut y dylid ymdrin â’r cydweddu hwn. Er enghraifft, yn ôl CLA Cymru, “dylai Llywodraeth Cymru gymeradwyo a mabwysiadu egwyddorion y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI), sy’n cael eu crybwyll yn yr ymgynghoriad, yn hytrach na datblygu ei hegwyddorion ei hun. Byddai hyn yn osgoi’r angen i ddyblygu gwaith helaeth y BSI, ac yn sicrhau y gallai marchnadoedd natur weithredu ledled y DU yn ddidrafferth.” Mae RSBP Cymru yn manylu ymhellach ar yr angen i’r “egwyddorion hyn gydweddu â fframweithiau sydd eisoes yn bodoli ar draws marchnadoedd a’r DU...Nid yw’r egwyddorion ar eu pennau eu hunain yn ddigonol i ddarparu marchnadoedd cadarn o ran uniondeb. Mae angen i Lywodraeth Cymru hefyd gefnogi mabwysiadu’r egwyddorion drwy roi arwyddion clir i’r farchnad ar reoleiddio, cymorth i ddeall cymhlethdodau tirweddau Cymru a pherchnogaeth etc.”

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu y “dylai’r egwyddorion fod yn rhan o fframwaith rheoleiddio cyffredinol, wedi’i integreiddio â safonau a rheoliadau ffurfiol i atal buddiannau economaidd tymor byr rhag tanseilio nodau hirdymor a sefydlogrwydd y farchnad.” Dywedodd cyfrannwr dienw, wrth gyfeirio at Egwyddor 4, fod “y pwyntiau hyn yn debygol o fod wedi’u cwmpasu eisoes gan Flex 701 y BSI. Byddem yn cwestiynu gwerth llunio cyfres ar wahân o egwyddorion uniondeb cadarn i Gymru gyda lefel mor uchel o orgyffwrdd, yn hytrach na chyfeirio at gyfres gadarn o egwyddorion sydd eisoes wedi’u cyhoeddi, ac mae perygl y bydd gormod o egwyddorion sy’n gorgyffwrdd yn drysu’r farchnad.”

**Diwylliant Cymraeg**: Er bod effaith yr egwyddorion ar iaith a diwylliant Cymru yn cael eu hystyried yn benodol yng nghwestiynau saith ac wyth, mae sawl un o’r ymatebion i gwestiwn un hefyd yn galw am fwy o bwyslais ar ddiwylliant Cymru o fewn yr egwyddorion. O ran egwyddor 1, mae NFU Cymru yn credu, “yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, y dylai lles diwylliannol gan gynnwys y Gymraeg fod yn ystyriaethau allweddol.”

**Cwmpas:** Mae sawl un o’r ymatebion yn cwestiynu cwmpas yr egwyddorion, gyda North Star Transition yn datgan bod yr “Egwyddorion arfaethedig yn rhy gyfyngedig o ran cwmpas ac uchelgais i gyflawni’r deilliannau y gobeithir amdanyn nhw.” Mae’r

pryderon ynghylch cwmpas yn cynnwys i bwy mae'r egwyddorion yn berthnasol (er enghraifft 'cydnerthedd mewn perthynas â chyflenwadau bwyd'; dim ond 5% o gynnyrch allweddol fel cig eidion a chig oen sy'n cael eu bwyta yng Nghymru), hyd oes yr egwyddorion, pa feysydd maen nhw'n eu cwmpasu, pwy sy'n cynllunio ac yn monitro'r methodolegau ac ati. I'r un perwyl â'r adran yn sôn am ddiffyg manylder digonol uchod, mae WWF Cymru yn dweud bod "llai o gyfeirio at Atebion ar sail Natur mewn amgylcheddau trefol h.y. teipolegau seilwaith gwyrdd. Nid yw'r egwyddorion nac Atodiad 2 [y ddogfen ymgynghori] yn manteisio ar fusnes mewn ardaloedd trefol a maestrefol y tu hwnt i gyfeiriadau at ddatblygiadau newydd a'r broses gynllunio. A yw'r mannau hyn y tu hwnt i'r cwmpas? Neu a yw eu cynnwys i gael ei gymryd yn ganiataol? Byddai'r egwyddorion yn cael eu cryfhau o'u gwneud yn fwy eglur: mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y berthynas rhwng cydnerthedd ecosystemau, a manteision cydnerthedd / lles cymunedol, a'r angen i'w darparu ar lefel tirwedd a chymdogaeth."

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymell "egluro cwmpas yr egwyddorion, gan gynnig teitl fel 'Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy ar gyfer Adfer Natur'" i adlewyrchu eu ffocws yn well. Credant y dylai'r egwyddorion hyn fod yn berthnasol i fuddsoddiadau sy'n seiliedig ar y farchnad (credydau masnach) a buddsoddiadau sydd heb fod ynghlwm wrth y farchnad (contractau, grantiau). Mae Grŵp Llywio Megaddalgylch Bannau Brycheiniog yn nodi: "nid yw Deddfau Llywodraethau bob amser yn berthnasol yn llawn i sefydliadau preifat, ac mae hynny'n cyfyngu ar effaith unrhyw gyflawni. Yn yr un modd, mae angen arweiniad a chefnogaeth gref arnom i helpu cymunedau i berchnogi, ymgysylltu a darparu atebion ar sail natur. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion presennol yn tueddu i ganolbwyntio ar gynnal y dulliau gweithredu presennol ac mae angen cefnogaeth er mwyn newid y tueddiad hwnnw." Roedd un cyfrannwr dienw yn tynnu sylw at yr angen i'r egwyddorion ystyried "sut y gall cyllid preifat yn y maes hwn ryngweithio ac ategu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan ddeall unrhyw rwystrau posibl, er enghraifft drwy lesteirio prawf o ychwanegedd."

**Dibyniaeth ar y farchnad rydd:** Mae llawer o ymatebion yn nodi bod gormod o ddibyniaeth ar "godiadau datblygu mewn cyllid, er elw ac o dan arweiniad y farchnad, ar gyfer gwasanaethau ecosystem". Yn ôl RSPB Cymru, "yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru, cafwyd sawl achos proffil uchel o gorfforaethau mawr yn prynu tir ar gyfer prosiectau gwrthbwyso carbon, gyda hyn yn dadleoli pobl, yn effeithio ar ein treftadaeth ddiwylliannol ac yn methu â darparu manteision lluosog i fyd natur neu gymunedau lleol. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth ac ansicrwydd ynghylch y dyfodol. Rhaid i'r Egwyddorion hyn sicrhau uniondeb cadarn o fewn y gofod hwn a diogelu pobl Cymru ac adfer ein tir. Dylai buddsoddiadau alluogi'r tirfeddianwyr hynny i aros a chael eu cefnogi i wneud hynny." Roedd ymateb unigol yn arbennig o frwd am y mater hwn. Nododd fod "yr egwyddorion hyn yn seiliedig ar bwyslais a dibyniaeth cwbl anghymesur ar egwyddorion marchnad rydd neo-ryddfrydol ac 'elw preifat' – a'r wrogaeth a delir iddynt - fel sbardun ar gyfer adfer natur, fel pe bai'n bosibl i'r ddau beth fod yn gydnaws, neu fod yna 'ddymuniad' i'w gwneud yn gydnaws. Nid yw hynny wedi gweithio hyd yma, ac mae'n hollol aneglur sut y byddai'n gweithio nawr."

**Diffyg gweithredu a diffyg atebolrwydd:** Mae'r canfyddiad o ddiffyg gweithredu gan Lywodraeth Cymru yn cael ei grybwyll mewn sawl un o'r ymatebion. Nododd

WWF Cymru ei bod hi'n "anffodus fod deddfwriaeth ehangach, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn fwyaf nodedig, wedi methu â chydnabod yr hierarchaeth hon yn gyson wrth ei drafftio ac, o ganlyniad i hynny, wrth ei gweithredu. Mae'r diffyg cydnabyddiaeth hwn, lle mae deilliannau'n cael eu rhannu ar draws pileri amgylcheddol, cymdeithasol/diwylliannol ac economaidd, wedi arwain at danbrisio a/neu golli deilliannau amgylcheddol o fewn rhai elfennau o bolisi ehangach Llywodraeth Cymru."

**Bylchau:**
Mae bylchau allweddol a nodwyd gan bump (5) neu fwy o ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Ecosystemau cydnerth: Dylai'r egwyddorion gefnogi'n benodol y gwaith o gynnal ac adfer ecosystemau cydnerth yng Nghymru, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. – Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gollyngiadau: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu y dylai'r egwyddorion fynd i'r afael â gollyngiadau (lle mae deilliannau cadarnhaol mewn un maes yn cael eu gwrthbwyso gan ddeilliannau negyddol mewn mannau eraill). – Cyfoeth Naturiol Cymru
- Egwyddorion ochr y galw: Maen nhw'n awyddus i gynnwys egwyddorion ochr y galw i sicrhau ymddygiad cyfrifol gan brynwyr ac atal materion fel gollyngiadau. – Cyfoeth Naturiol Cymru
- Addasu i newid hinsawdd: Dylai'r egwyddorion annog mesurau cydnerthedd hinsawdd yn benodol mewn atebion ar sail natur, gan gydnabod effeithiau newid hinsawdd. – Cyfoeth Naturiol Cymru
- Rheoli risg tryloyw: Dylai'r egwyddorion nodi'r angen am dryloywder o ran asesu a lliniaru risg o ran tanberfformio mewn prosiectau i atal gwyrddgalchu a sicrhau ansawdd buddsoddiad. – Cyfoeth Naturiol Cymru
- Mesur a monitro: Maen nhw'n eirioli dros fwy o uchelgais wrth gasglu data amgylcheddol a sicrhau bod prosiectau'n seiliedig ar dystiolaeth. – Cyfoeth Naturiol Cymru
- Pentyrru: Er bod hynny'n gymhleth, maen nhw'n awgrymu y dylai'r egwyddorion fynd i'r afael yn y pen draw â'r gallu i gyfuno ffynonellau buddsoddi lluosog ar gyfer un prosiect. – Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn pwysleisio y dylai'r egwyddorion gydweddu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gan sicrhau bod buddsoddiadau'n cyfrannu at ddeilliannau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd hirdymor. Maen nhw hefyd yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau nad yw ymdrechion amgylcheddol Cymru yn gwneud dim mwy na gwneud iawn am effeithiau negyddol dramor. – Cyfoeth Naturiol Cymru
- Arweiniad mwy eglur: Angen mwy o arweiniad ar sut y bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu gorfodi ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Byddai fframwaith manylach ar fonitro a chydymffurfio yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cymhwyso'r egwyddorion hyn yn gyson mewn ffordd fesuradwy ac atebol. – National Landscapes Association
- Llywodraethu lleol a'r gymuned: Gallai pwyslais cryfach ar rôl llywodraethu lleol a mentrau dan arweiniad cymunedol wella eu defnydd ymarferol ymhellach, gan sicrhau bod gwybodaeth a gwerthoedd lleol yn

cael eu hintegreiddio i'r gwaith o wneud penderfyniadau. – National Landscapes Association

- Cyfranogwyr ar raddfa lai: Mwy o ffocws ar fynd i'r afael â heriau tirfeddianwyr llai a grwpiau cymunedol wrth gyrchu cyllid gwyrdd. Yn ymarferol, bydd buddsoddwyr ar raddfa fawr yn aml mewn sefyllfa well i fanteisio ar farchnadoedd gwasanaethau ecosystem, tra gall cyfranogwyr llai wynebu rhwystrau fel diffyg capasiti, gwybodaeth neu gyfalaf ymlaen llaw. Byddai cynnwys mesurau penodol i gefnogi'r rhanddeiliaid hyn, megis rhaglenni cymorth technegol neu gymhellion ariannol, yn gwneud yr egwyddorion yn fwy cynhwysol ac yn helpu i ddemocrateiddio'r gallu i gyrchu cyfleoedd cyllid gwyrdd. – National Landscapes Association
- Cymhlethdod natur: Mae themâu allweddol sydd ar goll yn cynnwys 1) cydnabod bod natur yn gymhleth, yn ddynamig, yn amrywiol ac yn seiliedig ar le, 2) cydnabod bod ein heconomi gyfan wedi'i gwreiddio ym myd natur, felly dylid dylunio atebion ar sail natur gyda deilliannau economaidd a chymdeithasol fel pwynt cychwyn (nid ychwanegiad iddo, fel sy'n wir yn aml iawn!), a 3) mae natur yn system (sy'n nythu mewn systemau economaidd) ac mae buddsoddi mewn cainc o'r system yn arwain at effeithiau systemig llawer ehangach. – The Good Economy
- Canlyniadau systemig: Dylai'r deilliannau hefyd ystyried effaith systemig atebion ar sail natur o ran buddsoddiad a rheolaeth h.y. sut y gall buddsoddi mewn ymyrraeth effeithio ar system economaidd a chymdeithasol gyfan, a'r system facro ehangach y mae'n nythu ynddi. – The Good Economy

## Cwestiwn 2: Beth yw eich barn ar sut y gellir cymhwyso'r egwyddorion i ddarparu atebion sy'n seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystem?

36 o 42 ymateb.

**Crynodeb:** Mae llawer o'r ymatebion i gwestiwn 2 yn gorgyffwrdd yn agos â chwestiwn 1. Fodd bynnag, mae rhai ymatebion nad ydynt yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cwestiwn hwn, ond yn hytrach yn cyfeirio at eu gwaith eu hunain, neu'n cynnig sylwebaeth ehangach ar egwyddorion a'u sector yn gyffredinol. Mae llawer o ymatebion yn canmol yr egwyddorion, gydag un sefydliad yn dweud bod "yr egwyddorion yn darparu sylfaen gref ar gyfer gweithredu atebion ar sail natur a gwasanaethau ecosystem mewn ffordd effeithiol. Mae'r egwyddorion yn sicrhau bod prosiectau'n darparu manteision amgylcheddol a chymdeithasol amlwg tra'n cynnal safonau uchel o dryloywder, atebolrwydd ac ymgysylltu â'r gymuned." Fodd bynnag, mae rhai hefyd yn awgrymu bod ffordd bell i fynd o ran datblygu'r egwyddorion hyn i ddarparu atebion ar sail natur yn effeithiol, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio ar gyrchu buddsoddiad ar gyfer cyllid hirdymor.

### Dadansoddiad thematig

**Buddsoddiad a chyllid hirdymor:** Yn debyg i gwestiwn un, mae sawl un o'r ymatebion yn adleisio pwysigrwydd buddsoddiad cynaliadwy heb orddibynnu ar fecanweithiau'r farchnad. Fodd bynnag, yn ôl ambell sefydliad, "nid yw'n eglur sut, os o gwbl, y bydd Llywodraeth Cymru'n hwyluso llif o gyllid ac i ba raddau y bydd

Llywodraeth Cymru yn ceisio darparu arweiniad i bobl sy'n dymuno ymgysylltu â marchnadoedd a chynlluniau newydd." Yn ôl y Gymdeithas Cadwraeth Forol, "mae'n werth ystyried dulliau amgen o roi'r golau gwyrdd i fuddsoddiad heb fod â'r data perffaith. Mae ymateb arall yn nodi bod "eglurder yn hanfodol, gan fod y farchnad cyllid gwyrdd yn fyd-eang a bydd buddsoddwyr yn gweithredu ar draws sawl gwlad/marchnad, gartref a thramor. Nid yw'r egwyddorion yn mynd yn ddigon pell yn y maes hwn. "

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn dweud bod "cyrff cyhoeddus yn sôn y byddai'n llawer haws cyflawni Cymru natur-bositif erbyn 2030 pe bai cyllid yn cael ei ddyrannu dros 5 mlynedd. Byddai ffocws strategol a mwy hirdymor o'r fath hefyd yn gwella'r siawns o greu pecyn gweithgaredd mwy atyniadol o ran buddsoddi yng Nghymru neu o fewn y pedwar rhanbarth." Yn yr un modd, mae Cyngor Sir Fynwy yn dweud bod "modelau ariannu cyfredol ar gyfer darparu atebion ar sail natur, sef grantiau, yn hynod o fyr – dim mwy na 2-3 blynedd – heb unrhyw fonitro a chynnal a chadw hirdymor. Maen nhw hefyd yn hynod o gystadleuol, gyda'r angen i ddatblygu prosiectau a meysydd gwaith 'newydd' gyda phob cylch ariannu. Mae adfer natur yn gofyn am ddulliau llawer mwy hirhoedlog a chyson er mwyn gallu eu cyflawni drwy'r egwyddorion hyn." Yn ôl Banc, "os yw buddsoddwyr, yn enwedig rheolwyr buddsoddi cyfryngol, yn dymuno datblygu prosiectau ar gyfer buddsoddi yng Nghymru, yna ni ddylai cyfraniad gwirfoddol i drefn ganolog fod yn rhwystr sylweddol. Byddai hefyd yn sail i ymgysylltu a chydweddu hirdymor rhwng Llywodraeth Cymru a marchnadoedd ar nodau polisi." Serch hynny, roedd llawer o'r ymatebion yn ystyried bod buddsoddiad preifat yn rhywbeth hanfodol.

Yn ôl Ymddiriedolaethau Natur Cymru, "ni ddylid caniatáu sefyllfa lle mae buddsoddiad preifat i adfer natur yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n cymryd lle buddsoddiad cyhoeddus. Wrth roi'r Egwyddorion hyn ar waith, mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig o ran sicrhau bod y lefelau uchaf posibl o uniondeb amgylcheddol ynghlwm wrth unrhyw brosiectau, ac y bydd hynny'n helpu i sicrhau bod targedau ac ymrwymiadau ynghylch adferiad natur yn cael eu cyflawni."

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** Roedd llawer o ymatebion yn gefnogol ar y cyfan i'r ffaith fod yr egwyddorion yn cydnabod pwysigrwydd cymunedau lleol ac ymgysylltiad effeithiol â nhw. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebion o'r farn fod angen mwy o fanylion. Er enghraifft, mae Undeb Amaethwyr Cymru yn cytuno'n fras â'r egwyddorion, ond yn dweud hefyd bod "llawer o enghreifftiau lle nad yw 'ymgysylltu' cynnar neu ymgynghori â'r gymuned wedi newid neu atal penderfyniad a allai fod yn niweidiol yn y pen draw. Byddai asesiad o'r effaith ar fuddsoddiad yn gryfach, fel y galwodd Undeb Amaethwyr Cymru amdano yn ei faniffesto adeg etholiadau cynghorau sir 2022." Mae Coed Cadw yn tynnu sylw at y ffaith bod "angen i'r mecanwaith llywodraethu roi rôl sylweddol i randdeiliaid wrth wneud penderfyniadau ar y cyd, gan gynnwys ar flaenoriaethau ar gyfer gwariant."

Mae RSPB Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd "gweithio'n agos mewn partneriaeth, ymgysylltu â'r rhai sydd ag arbenigedd lleol, rhoi hwb i fanteision ychwanegol fel gwell bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr, a buddsoddi yn y gymuned drwy weithio gyda busnesau lleol." Mae'r National Landscapes Association yn cefnogi rôl yr egwyddorion hyn wrth annog ymgysylltu, gan nodi mai "un o gryfderau allweddol yr egwyddorion yw eu ffocws ar ymgysylltu â'r gymuned a rhannu manteision yn deg.

Mae hyn yn sicrhau bod atebion ar sail natur nid yn unig yn effeithiol yn amgylcheddol ond hefyd yn gynhwysol yn gymdeithasol. Mae ymgysylltu â chymunedau lleol yn gynnar yn y broses o ddatblygu'r prosiect a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau yn helpu i greu ymddiriedaeth a hybu'r gefnogaeth yn lleol."

**Integreiddio:** Mae llawer o ymatebion yn tynnu sylw at bosibilrwydd integreiddio'r egwyddorion, a chyllid preifat, gyda Chynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru. Mae WWF Cymru "yn gweld potensial sylweddol i'r egwyddorion gael eu rhoi ar waith i ddarparu atebion ar sail natur a gwasanaethau ecosystem. Yr her a ragwelwn yw integreiddio'r egwyddorion hyn â pholisi cyhoeddus ehangach […] Ond rhagwelwn botensial sylweddol i integreiddio elfennau o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, megis cyllid a ddyrannwyd i blannu coed ac adfer mawndir, o ystyried y codau cyfrifyddu cymharol gadarn ac aeddfed sydd ar waith i nodi deilliannau. Eto i gyd, mae angen llawer mwy o ofal a chynildeb mewn meysydd eraill, yn fwyaf nodedig pan fo gweithredoedd natur/hinsawdd yn rhyngweithio â chynhyrchu bwyd (mae amaeth-goedwigaeth yn enghraifft wych) er mwyn sicrhau nad yw'r buddsoddiadau hyn yn troi'n gymhorthdal i gynhyrchu bwyd ar ddamwain – a fyddai'n creu pryder o safbwynt masnach ryngwladol." Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn mynegi pryder y gallai "buddsoddiad preifat, yn anfwriadol, gael ei ddefnyddio fel cymhorthdal i gynhyrchu bwyd yn hytrach na gwella nodau amgylcheddol. Mae angen adnoddau digonol ar haen gydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a allai alluogi prosiectau bioamrywiaeth ar raddfa tirwedd, er mwyn iddi fod yn effeithiol […] Mae angen eglurder hefyd ynghylch sut i gyfuno arian cyhoeddus o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy â buddsoddiad gwyrdd, gan sicrhau nad yw cyllid yn cael ei ddyblu. Bydd buddsoddiad gwyrdd llwyddiannus yn dibynnu ar ba mor dda y gall arian cyhoeddus a phreifat gydweithio heb i un danseilio'r llall."

**Deilliannau meintiol:** Galwodd rhai ymatebion am fwy o fanylion yn yr egwyddorion ar sut mae deilliannau buddsoddiadau yn cael eu meintioli. Mae Cymdeithas y Pridd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn adleisio pwysigrwydd meintioli deilliannau, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgan bod "mesur a meintioli deilliannau atebion ar sail natur yn hanfodol ar gyfer tryloywder, lliniaru risg a sicrhau gweithrediad effeithiol." Mae Cymdeithas y Pridd "eisiau i daliadau cyhoeddus tuag at fanteision cyhoeddus o reoli tir weithredu ochr yn ochr â chyllid preifat ar gyfer taliadau amgylcheddol, er mwyn sicrhau bod arferion da cyfredol (e.e. ffermio organig) yn cael eu gwobrwyo heb i ddeilliannau croes ddigwydd e.e. allyriadau ychwanegol ar y tir i ailosod gwaelodlinau." Mae The Good Economy yn tynnu sylw at "yr angen i ddeilliannau hefyd ystyried effaith systemig atebion ar sail natur o ran buddsoddiad a rheolaeth h.y. sut y gall buddsoddi mewn ymyrraeth effeithio ar system economaidd a chymdeithasol gyfan, a'r system facro ehangach y mae'n nythu ynddi."

**Cyflenwi manteision**: Mae sawl un o'r ymatebion yn cynnig sylwadau ar sut y gellid defnyddio'r egwyddorion i arwain y gwaith o gyflenwi manteision sy'n cael eu darparu gan atebion ar sail natur. Mae'r thema hon yn ymwneud yn rhannol â'r thema eglurder a chyfranogwyr y farchnad a nodwyd mewn ymatebion i gwestiwn un. Mae Fforwm Arfordirol Sir Benfro yn awgrymu y "gallai'r Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy gael eu defnyddio gan sefydliadau cyflenwi natur a buddsoddwyr / cyllidwyr i arwain datblygiad prosiect felly mae'n fwy tebygol o gael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a chymunedau yng Nghymru.

Mae un ymateb yn awgrymu bod tirweddau sy'n cael eu hamaethu yn faes allweddol ar gyfer cyflenwi atebion ar sail natur, oherwydd bod "tirweddau sy'n cael eu hamaethu mewn sefyllfa unigryw o allu integreiddio atebion ar sail natur ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd, ac mae'n bwysig cydnabod hyn. Mae edrych ar atebion ar sail natur a ffermio ar wahân i'w gilydd yn cyfyngu ar gyfleoedd ac yn rhwystro'r broses o symud tuag at nodau amgylcheddol pwysig." Roedd ymateb arall yn tynnu sylw at y ffaith fod "cyfleoedd credyd carbon i ffermwyr yn gyfyngedig ar hyn o bryd, gan fod pris cymharol credydau yn isel. Mae hynny'n golygu bod unrhyw ffin bosibl yn gofyn am ddatblygiadau ar raddfa fawr, ac mae angen i ffermwyr fod yn ymwybodol o hyn cyn ymrwymo i unrhyw gontract." Fodd bynnag, "gyda chyfres gadarn o egwyddorion arweiniol, byddai rheolwyr tir a chymunedau yn fwy tueddol o ymgysylltu â mentrau cyllid cynaliadwy – ar yr amod eu bod o fudd llwyr i'r holl gyfranogwyr dan sylw."

Mae ymateb arall yn annog y llywodraeth i ddarparu cymhellion a helpu i gyflawni arferion gorau. Er enghraifft, "gallai Llywodraeth Cymru achredu sefydliadau priodol i archwilio pa mor dda y mae prosiectau'n cydweddu ag egwyddorion uniondeb cadarn er mwyn caniatáu i'r prosiectau hynny farchnata eu credydau priodol fel rhai o safon uwch, er enghraifft Safon Aur Llywodraeth Cymru, a allai gefnogi prisio premiwm." Mae Grŵp Llywio Megaddalgylch Bannau Brycheiniog yn rhybuddio na ddylai'r egwyddorion arfaethedig "gael eu sbarduno o'r brig yn unig. Mae angen i gymunedau lleol a rheolwyr tir berchnogi'r materion a chyflenwi opsiynau lleol. I wneud hynny, mae angen dealltwriaeth o'r ystod o ymyriadau sydd ar gael, a'r sgiliau i'w gwireddu. Bydd y rhain yn sicrhau ymgysylltiad a pherchnogaeth leol, ond bydd angen cydsyniad effeithlon a hawdd ar y cyd â nhw, a mecanweithiau ariannu addas i annog cyflenwi."

## Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod ein dull arfaethedig yn ategu gwerthoedd/safonau cynlluniau a chodau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?

30 o 42 ymateb.

**Crynodeb:** Yn gyffredinol, mae'r ymatebion yn cytuno ac yn croesawu'r dull arfaethedig, gan nodi bod "yr egwyddorion hyn ar y cyfan yn ymddangos yn gyson ag egwyddorion a chodau buddsoddi cynaliadwy eraill." Fodd bynnag, mae sawl un o'r ymatebion yn galw am eglurder ynghylch y meysydd uchod yng nghwestiynau un a dau, yn enwedig gweithredu, buddsoddi ac atebolrwydd, er mwyn cefnogi'r egwyddorion arfaethedig yn llawn.

### Dadansoddiad thematig

**Gwasanaethau Ecosystem:** Mae Tirweddau Cymru yn nodi ei bod "yn bwysig mynegi pryder ynghylch costau sy'n gysylltiedig â rhai cynlluniau a chodau a allai leihau'r incwm i reolwyr tir a chymunedau." Mae sefydliad arall yn dweud y gallai'r dulliau "gael eu cryfhau i dynnu sylw at bwysigrwydd targedau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth. Byddem hefyd yn hoffi gweld syniad o sut y bydd yr egwyddorion hyn yn arwain, cefnogi ac yn ysgogi cyllid i sicrhau bod darpariaeth ystyrlon ar gyfer adfer natur ar raddfa tirlun a morlun." Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn tynnu sylw at y ffaith "na fydd y gwasanaeth ecosystem sy'n cael ei gyflenwi yn cynrychioli 'enillion net' fel y cyfryw o ran adfer natur. Mae hynny'n arbennig o wir o ran

masnachu carbon, sydd wedi'i gofnodi'n helaeth fel dull a allai hwyluso 'trwydded i lygru'."

**Fframweithiau eraill:** Dywed Coed Cadw y bydd "fframwaith delfrydol sy'n cael ei greu gan Lywodraeth Cymru yn cwmpasu mentrau presennol ac yn cymell eu gwelliant graddol tuag at gyflawni'r egwyddorion yn llawn." Mae Banc hefyd yn awgrymu y byddai "egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer fframwaith buddsoddi cyfrifol […] yn cynnig templed defnyddiol ar gyfer datblygu fframwaith gwirfoddol i fonitro a gwerthuso sut mae egwyddorion buddsoddwyr yn cael eu gweithredu a'u perfformiad dros amser, tra'n galluogi hyblygrwydd i'r buddsoddwr ac i'r prosiect."

Mae NFU Cymru yn dweud yn benodol y "dylai'r dulliau [Talu am Wasanaethau Ecosystem] gael eu llywio gan yr egwyddorion canlynol:

- Rhaid gwobrwyo ffermwyr yn deg am gyflenwi nwyddau amgylcheddol.
- Rhaid i farchnadoedd amgylcheddol weithio ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd, ynni a ffibr
- Rhaid i bolisïau cyhoeddus a mentrau'r llywodraeth gefnogi datblygiad marchnadoedd preifat
- Mae angen rheolau a safonau clir er mwyn galluogi ffermwyr i gymryd rhan yn hyderus
- Dylai marchnadoedd fod yn hygyrch ar draws ffermydd, deiliadaethau a strwythurau busnes o bob maint

Er nad oedd yn fframwaith na chynllun a restrwyd, mae sawl un o'r ymatebion yn gofyn i Lywodraeth Cymru egluro Budd Net ar gyfer Bioamrywiaeth ar fyrder, a sut y bydd yn sbarduno buddsoddiad i adfer natur yng Nghymru.

**Cytundeb:** Er bod cefnogaeth gyffredinol, mae rhai ymatebion yn anghytuno'n amlwg â'r egwyddorion arfaethedig, gydag un yn datgan y dylai'r egwyddorion "ddechrau gyda'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn gyntaf, a'i wella'n sylweddol." Un awgrym yw y dylid cael "cofnod canolog o [gofnodi cynlluniau sydd ar waith], beth sydd wedi cael ei wneud, pa mor llwyddiannus y buont, eu lleoliad a'u maint. Mae angen hyn er mwyn ennyn hyder, cefnogi mwy o bobl i fanteisio ar y broses a sicrhau ein bod ni'n osgoi dyblygu ymdrechion. Byddai hefyd yn cefnogi cyfnewid gwybodaeth.

## Cwestiwn 4: Beth yw eich barn am ein dull arfaethedig o archwilio cyllid cynaliadwy yng Nghymru?

36 o 42 ymateb.

**Crynodeb:** Mae llawer o ymatebion yn croesawu egwyddorion sydd wedi'u teilwra i Gymru, gan ei bod "yn bwysig tynnu sylw at y cymhlethdodau unigryw y mae Cymru'n eu hwynebu". Er eu bod yn gefnogol, mae llawer o ymatebion yn tynnu sylw at yr angen am fwy o fanylion am sut y bydd yr egwyddorion yn casglu data neu'n rhyngweithio â'r data presennol, sut y bydd y buddsoddiad yn cael ei sicrhau, a sut y bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu gweithredu a'u llywodraethu ledled Cymru.

**Rôl Llywodraeth Cymru:** Mae ambell ymateb hefyd yn ystyried y rôl y gallai Llywodraeth Cymru ei chwarae o ran cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar gyllid cynaliadwy yng Nghymru. Dywed un ymateb y gallai "Llywodraeth Cymru osod yr amodau i alluogi denu buddsoddiad cynaliadwy...", i ecosystemau morol, er enghraifft, lle mae "bwlch mawr ar hyn o bryd rhwng cost prosiectau sy'n gysylltiedig â natur a'r enillion posibl." Mae ymateb arall yn amlygu sut y gallai "cyllid cyhoeddus fod ar gael i dalu am golledion pe bai prosiect yn methu, neu i'w ddefnyddio i warantu isafswm enillion ar fuddsoddiad. Bydd angen cydweithio ar draws sectorau i weithredu hyn."

**Llywodraethu:** O ran llywodraethu'r egwyddorion, roedd sawl un o'r ymatebion yn teimlo'r angen am ragor o fanylion. Mae Tirweddau Cymru, a sawl un arall, yn pwysleisio'r "angen am lywodraethu cryf a thryloywder o ran unrhyw grwpiau buddsoddi neu bartneriaethau i sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn deg. Byddem hefyd yn croesawu mwy o fanylion am fecanweithiau gorfodi i sicrhau bod buddsoddiadau'n cyfrannu at nodau amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor. Dylid canolbwyntio hefyd ar sicrhau bod anghenion unigryw Cymru – megis gwarchod ei thirwedd, ei diwylliant, ei hiaith a'i threftadaeth unigryw – yn cael eu cynrychioli yn y cydweithio ehangach hyn. Mae gwaith craidd wedi'i gyllido yn ganolog i waith tirweddau dynodedig a'u gallu i gyflawni'r blaenoriaethau sy'n ddisgwyliedig ganddynt." Mae RSPB Cymru yn ategu'r angen am berthnasoedd cryf â rhanddeiliaid, gan nodi bod "ansicrwydd o hyd o ran sut y mae gweithio mewn partneriaeth ar draws grwpiau rhanddeiliaid i oresgyn y cymhlethdodau hyn. Mae angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull cydgysylltiedig yn fewnol i'w galluogi i arwain yn y meysydd hyn. Mae hefyd yn bwysig ystyried sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill, i fynd i'r afael â meysydd cyffredin sy'n peri pryder a sicrhau manteision."

**Safbwyntiau ychwanegol**

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn tynnu sylw at yr angen i "gynlluniau buddsoddi neu bartneriaid sector preifat ddatblygu deilliannau natur ar gyfer Cymru Gydnerth, ond hefyd sicrhau bod deilliannau o fuddsoddiadau yn cydweddu â phob un o saith Nod Llesiant Cymru. Yn gyfnewid am hynny, er mwyn i sefydliadau'r sector preifat fuddsoddi, bydd angen ymdeimlad da o sicrwydd arnynt. Mae'n gwneud synnwyr felly i gyfarfod â'r sector lle maen nhw: yn gyfarwydd â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ac adrodd Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant (ACLl). Hefyd, byddai'n ddefnyddiol pe baem yng Nghymru, ar y cyd, yn cynhyrchu fframwaith sy'n cydweddu â Chenedlaethau'r Dyfodol ac yn dangos llinell uniongyrchol buddsoddiadau ACLl drwy'r Nodau Llesiant ac i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Un ffordd o wneud hyn fyddai ymrwymo i fesur deilliannau dros gyfnod hwy, fel sydd eisoes yn digwydd gyda thargedau sero net hyd at 2050 sydd wedi galluogi marchnadoedd carbon."

Soniodd Cyswllt Amgylchedd Cymru am ddau faes y mae angen mynd i'r afael â nhw y tu hwnt i'r rhai y cyfeiriwyd atynt eisoes. Yn gyntaf, arallgyfeirio adfer natur y tu hwnt i blannu coed. "Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei blaenoriaethau buddsoddi yn mynd i'r afael â chwmpas llawn yr argyfwng natur a'r hinsawdd. Er bod plannu coed yn bwysig ar gyfer nodau sero net, dylai buddsoddiadau hefyd dargedu meysydd eraill, fel cysylltedd bioamrywiaeth, lle nad

yw'r mecanweithiau marchnad wedi ymsefydlu'n gadarn eto." Ac yn ail, "er mwyn bodloni'r targedau amgylcheddol uchelgeisiol a osodwyd ar gyfer 2030 a 2050, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu ar fyrder. Ni fydd cyllidebau cyfredol yn unig yn ddigonol, ac mae trosglwyddo tuag at opsiynau buddsoddi cynaliadwy yn hanfodol er mwyn bodloni'r targedau hyn ar amser."

Mae Coed Cadw yn mynegi pryder pellach am gydnabyddiaeth wael i fentrau rhanbarthol a phreifateiddio gormodol. "Un o'r gwendidau yng Nghymru yw diffyg mentrau rhanbarthol, fel y Northern Forest a rhwydwaith coedwigoedd cymunedol yn Lloegr. Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i sefydlu fframwaith ar gyfer prosiectau rhanbarthol o'r fath, gan edrych ar gyfleoedd sydd bellach yn deillio yn sgil Cynghrair Coedwigoedd Glaw Cymru, Partneriaeth Coedwig Wrecsam, anghenion datblygu'r gadwyn gyflenwi ranbarthol sy'n deillio o'r strategaeth datblygu coed a'r cyfleoedd eraill ar gyfer cydweithio ar draws awdurdodau lleol i gyflawni strategaethau coed a choetir."

Mae Banc yn tynnu sylw at y straen ar gapasiti Llywodraeth Cymru a'i gallu i fuddsoddi. "Mae cyfleoedd ar gyfer cyd-fuddsoddi cyhoeddus drwy Sefydliadau Cyllid Cyhoeddus fel Banc, gan sicrhau bod buddion cymunedol lleol gwell yn cael eu cyflawni ac y caiff straen ar adnoddau a chyfalaf cyffredinol yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru eu lleddfu drwy ddefnyddio Cyfalaf Trafodiadau Ariannol. O ystyried dosraniad perchnogaeth tir yng Nghymru a'r angen am ddulliau tirwedd integredig sy'n cydlynu ymyriadau'r farchnad o ran defnydd tir, byddem yn cefnogi modelau cydfuddiannol arfaethedig ar gyfer buddsoddi ac ymgorffori'r egwyddorion hyn yn y strwythurau sefydliadol hyn, er mwyn hwyluso cynigion llawer-i-un ar gyfer buddsoddi ac archwilio safonau yn briodol a chostau trafodiadau is. O ran safonau'r farchnad, rydym yn cytuno ac yn pwysleisio bod angen i safonau gydweddu â chodau rhyngwladol. Lle maen nhw'n cael eu gwella yng Nghymru gan fframweithiau cenedlaethol, mae modd hyrwyddo credydau i'r perwyl hwnnw, gan sicrhau cydymffurfiaeth fyd-eang a thrwy hynny greu cyfle i fuddsoddi a chyfle am brisiad gwell ar yr un pryd."

Yn ôl Ymddiriedolaethau Natur Cymru, "er bod [Ymddiriedolaethau Natur Cymru] yn cefnogi'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru o ran archwilio cyllid cynaliadwy, ni fyddem yn cefnogi hyn pe bai dull o'r fath yn cael ei ystyried yn fuddsoddiad amgen i fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ei hun tuag at adferiad natur a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau trefn deg ar gyfer buddsoddi cynaliadwy gyda gweithdrefnau clir ar waith a fydd yn sicrhau bod unrhyw gyllid preifat yn cydweddu'n glir ag amcanion Llywodraeth Cymru ar yr hinsawdd a natur." Yn yr un modd, mae Partneriaeth Dalgylch yr Wysg "yn croesawu'r dull Atebion ar sail Natur mewn egwyddor, ond credwn fod angen i fanylion y broses fod yn gadarn [...] Mae pryder y bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio i alluogi cyfranogwyr pwerus sydd â buddiant i 'weithredu yn ôl eu harfer' (boed y rhain yn cael eu cynrychioli gan y cyllidwyr eu hunain neu gan bobl sy'n gwneud y penderfyniadau neu lobïwyr o ddiwydiannau sy'n rhan o'r economi wledig eisoes), ac mae'n aneglur sut y bydd hynny'n cael ei ddatrys."

Mae GRWP Cymru yn mynegi pryder bod "perygl i'r meddylfryd sydd wrth wraidd yr ymgynghoriad rannu natur oddi wrth yr economi, fel bod pobl yn gweld y ddau fel elfennau sy'n cystadlu. Nodwyd na fydd natur yn gallu ennill wrth fframio'r drefn fel

hyn, ac y bydd yn cael ei aberthu wrth i bethau fynd yn anoddach dros amser. Mae angen ymgynghoriad ar sut i ddod yn hunangynhaliol o ran yr hanfodion, gan gadw cyfoeth a chynhyrchiant ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau dirifedi'r dyfodol. Mae'r ymgynghoriad presennol yn ffafrio corfforaethau sy'n gallu prynu, yn aml gydag arian cyhoeddus, ychydig o dir diffaith yn gyfnewid am reolaeth dros y rhan fwyaf o'n hadnoddau cynhyrchiol – tir, safleoedd a llifoedd adnewyddadwy, y môr, seilwaith a dyfroedd. Bydd yr adnoddau hynny'n cael eu rheoli gan gyrff heb unrhyw gariad na theyrngarwch at ardaloedd lleol a dim moeseg strwythurol, cyrff sy'n gallu fforddio prynu cynrychiolaeth gyfreithiol fel na fydd rheolaeth dros yr hyn maen nhw'n ei wneud." Dywedodd ymateb arall fod y dull hwn "yn sicr o arwain at ddinistr pellach o ran yr amgylchedd ac iechyd, lles a bywoliaeth cymunedau lleol a chenedlaethau i ddod."

Mae'r National Landscapes Association yn amlygu dau rwystr allweddol rhag gweithredu'r dull hwn yng Nghymru. Yn gyntaf, "diffyg ymwybyddiaeth a Chapasiti: yn achos llawer o dirfeddianwyr a grwpiau cymunedol, nid yw'r wybodaeth na'r gallu ganddynt i ymgysylltu â marchnadoedd gwasanaethau ecosystem. Byddai darparu cymorth technegol a rhaglenni meithrin gallu yn hanfodol i alluogi cyfranogiad ehangach." Ac yn ail, "cydgysylltu â safonau'r DU a Safonau Byd-eang: mae'n hanfodol sicrhau bod strategaeth Cymru yn cydweddu â mentrau ehangach y DU a thu hwnt, fel y Rhaglen Safonau Buddsoddi Natur a'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, gyda chydweddu o'r fath yn gwella hygrededd ac yn sicrhau cysondeb ar draws ffiniau." Mae ymateb dienw yn ategu bod angen "cymryd pwyll eithafol er mwyn diogelu cymunedau, bywoliaethau, a chydbwysedd bregus natur ei hun [...] Serch hynny, mae angen amlwg am fframwaith rheoleiddiol a chyfreithiol cryf i hwyluso buddsoddiadau a thrafodiadau o'r math hwn, er mwyn sicrhau eu bod yn wirioneddol fuddiol yn ecolegol."

## Cwestiwn 5: Beth ydych chi'n meddwl yw'r rhwystrau sy'n atal pobl a chymunedau Cymru rhag cymryd rhan mewn adferiad natur?

32 o 42 ymateb.

**Crynodeb:** Mae'r adborth i gwestiwn pump yn tynnu sylw at heriau cylchol, gan ganolbwyntio ar y rhwystrau systemig, economaidd a chymdeithasol sy'n atal ymgysylltiad ystyrlon yng Nghymru. Mae rhai o'r heriau hyn yn cynnwys mynediad at gyllid hirdymor, newidiadau o ran demograffeg, diffyg sgiliau a chapasiti, ymgysylltu a chymhlethdod y farchnad.

### Dadansoddiad thematig

**Cyllid:**

- "Ymhlith y rhwystrau allweddol mae diffyg sicrwydd cyllid hirdymor i gynghorau a sefydliadau partner [Partneriaethau Natur Lleol], cyllid refeniw cyfyngedig ar gyfer capasiti staff, a phrosesau ymgeisio cymhleth/dwys o ran adnoddau ar gyfer grantiau (megis arian y Loteri). Byddai symleiddio mynediad at gyllid cynaliadwy a darparu mwy o gymorth refeniw yn helpu i oresgyn y rhain." – Adran Amgylchedd Naturiol Cyngor Abertawe

- “Mae’r costau economaidd sy’n gysylltiedig â phrosiectau adfer natur yn rhwystr mawr arall, yn enwedig i dirfeddianwyr bach a chymunedau dan anfantais economaidd. Mae ymgysylltu ag atebion ar sail natur, fel creu coetir neu ffermio adfywiol, yn aml yn cynnwys costau uchel ymlaen llaw sydd y tu hwnt i lawer o randdeiliaid heb gymorth allanol.” – National Landscapes Association
- “Mae costau ynghlwm wrth newid defnydd tir, gweithredu arferion cynaliadwy, neu adfer cynefinoedd yn gallu bod yn afresymol, yn enwedig pan mae’r enillion ariannol uniongyrchol yn ansicr. Mae’r rhwystr economaidd hwn yn llesteirio cyfranogiad, yn enwedig mewn cymunedau lle mae sefydlogrwydd ariannol tymor byr yn flaenoriaeth.” – National Landscapes Association

**Newidiadau o ran demograffeg:** “Gall rhwystrau i gymunedau gwledig gynnwys newidiadau o ran demograffeg cymunedau gwledig – diboblogi a phoblogaeth sy’n heneiddio, diffyg amser oherwydd bod llawer yn gorfod gwneud sawl swydd i gael y ddau benllinyn ynghyd, seilwaith gwael gyda chyfleoedd teithio a mynediad cyfyngedig, y cyfan oll yn gysylltiedig â thlodi gwledig.” – Tirweddau Cymru

**Diffyg recriwtio a sgiliau:**

- Mae’n rhaid mynd i’r afael â’r diffyg buddsoddiad hanesyddol mewn natur, ynghyd â diffyg sgiliau a recriwtio sy’n benodol i’r sector, er mwyn “lleihau colledion bioamrywiaeth, gwella ansawdd dŵr a lliniaru effeithiau’r hinsawdd.” – Tirweddau Cymru
- “Mae gofynion trwyddedu a rheoleiddio cymhleth yn gallu llesteirio prosiectau ar raddfa gymunedol.” – Anaerobic Digestion and Bioresources Association
- “Dim digon o arbenigedd technegol ar gyfer datblygu a gweithredu prosiectau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.” – Anaerobic Digestion and Bioresources Association

**Capasiti ac adnoddau:**

- “Byddai crebwyll a chydweithio ar draws sectorau, gan gynnwys y diwydiant datblygu a thirfeddianwyr, yn rhan bwysig o lwyddiant yr egwyddorion buddsoddi. Fodd bynnag, o ystyried y capasiti a’r adnoddau presennol, nid yw’n glir sut y bydd hynny’n cael ei gynnal.” – Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru
- “Hyd yn oed pan fydd diddordeb, nid yw’r arbenigedd technegol a’r capasiti gan lawer o gymunedau a thirfeddianwyr i ymgysylltu’n ystyrlon ag adfer natur. Mae datblygu prosiectau sy’n cynhyrchu credydau gwasanaethau ecosystem, fel credydau carbon neu fioamrywiaeth, yn gofyn am gynllunio sylweddol, gwybodaeth dechnegol ac adnoddau ariannol”. – National Landscapes Association
- “Heb wybodaeth glir a hawdd ei defnyddio ar sut i ddatblygu a gweithredu prosiectau ar sail natur, mae llawer o ddarpar gyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio o’r cyfleoedd hyn. Byddai darparu adnoddau addysgol hygyrch a rhaglenni allgymorth yn helpu i bontio’r bwlch gwybodaeth hwn.” – National Landscapes Association

**Ffermio a rheoli tir:**

- “Mae diffyg eglurder ynghylch cymorth ariannol, yn enwedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn llesteirio cynllunio ar raddfa fawr. Mae costau cynyddol (e.e. mewnbynnau, costau byw) a ffactorau geowleidyddol newidiol yn creu straen ariannol. Mae diffyg strategaeth fwyd gydlynol yng Nghymru yn tanseilio incwm a buddsoddiad ffermydd, gan effeithio ar economïau bwyd lleol.” – Rewilding Britain
- “Mae dyluniad presennol y marchnadoedd hyn yn golygu bod ffermydd teuluol llai o dan anfantais strwythurol rhag medru manteisio ac elwa arnynt. Oherwydd costau cofrestru, gwirio a monitro parhaus, mae prosiectau ar raddfa fawr heb lawer o ‘ddynion canol’, marchnata da a chysylltiadau da â buddsoddwyr yn cynnig enillion llawer gwell.” – Undeb Amaethwyr Cymru
- “Mae pryderon am effeithiau posibl newidiadau i ddefnydd tir ar fywoliaeth draddodiadol ac economïau lleol yn rhwystr sylweddol i gyfranogiad cymunedol. Mae llawer o dirfeddianwyr, yn enwedig y rhai sy’n ymwneud ag amaethyddiaeth, yn ofni y gallai prosiectau adfer natur arwain at golli tir amaethyddol cynhyrchiol neu gyfyngu ar ddefnydd tir.” – National Landscapes Association
- “Mae symud i brosiectau adfer natur, fel dad-ddofi tir neu adfer gwlyptir, yn gallu ymddangos fel bygythiad i gynhyrchiant amaethyddol a diogelwch bwyd. Mae’r pryderon hynny wedyn yn arwain at wrthwynebiad, yn enwedig pan nad yw manteision adfer natur yn cael eu cyfleu’n glir neu’n cael eu gweld fel prosiectau sy’n methu â gwneud iawn economaidd am golli tir ffermio.” – National Landscapes Association

**Ymgysylltu:**

- “Dim digon o gefnogaeth, monitro ac arian ar gyfer mentrau rheoli tir o dan arweiniad y gymuned. Diffyg mecanweithiau cryf ar gyfer perchnogaeth tir cymunedol, gyda galw am ddiwygio tir i gefnogi ymddiriedolaethau cymunedol ac ecolegol.” – Rewilding Britain
- “Yn aml, gall cymunedau deimlo’n ddi-rym oherwydd diffyg cyfleoedd clir i gymryd rhan yn y sgwrs ynghylch adfer natur. Mae cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd, neu lle mae prisiau tai yn rhy uchel i bobl leol eu fforddio, yn aml yn teimlo nad yw’r system yn gweithio’n ddigon cyflym ac effeithlon i ddarparu’r atebion maen nhw’n chwilio amdanyn nhw i geisio amddiffyn eu cymunedau, eu treftadaeth a’u bywoliaeth.” – Partneriaeth Dalgylch yr Wysg
- “Mae diffyg mecanweithiau clir a chefnogaeth gan y llywodraeth yn llesteirio cyfranogiad busnesau ym maes adfer natur. Mae modelau cyllid sy’n dod i’r amlwg fel Stump for Trees a Rhaglen Adfer Coedwig Law yr Iwerydd yn dangos potensial ond dydyn nhw’n ddim wedi eu datblygu’n ddigonol o hyd.” – Rewilding Britain

**Cymhlethdod y farchnad: “**Cymhlethdod o ran ariannu mentrau gwyrdd, gyda’r angen i fusnesau a chymunedau ddangos manteision ariannol ac amgylcheddol. Mae diffyg cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i bolisi cadarn yn cyfyngu ar yr ymgysylltu â chyllid gwyrdd, gyda chyllid ar gyfer gwasanaethau ar sail natur yn brin iawn.” – Rewilding Britain

**Diffyg ymddiriedaeth:**

- “Mae diffyg ymddiriedaeth o ran cymhellion rhai buddsoddwyr preifat yn debygol. Er enghraifft, mae manwerthwyr bwyd sy’n talu ffermwyr yn annigonol yn rhoi’r argraff eu bod nhw’n tanseilio ymdrechion i fod yn gynaliadwy, oherwydd bod eu prisiau isel yn gallu gwrthbwyso unrhyw effaith gadarnhaol o fuddsoddi mewn adfer natur. Dylai fod yn ofynnol i gwmnïau wella eu harferion amgylcheddol eu hunain yn gyntaf cyn ennill clod am gefnogi adfer natur.” – Cyswllt Amgylchedd Cymru
- “Mae diffyg arweinyddiaeth o du’r llywodraeth yn ffafrio corfforaethau a hunan-les. Problem gwleidyddion â hunan-les yn cyrraedd sefyllfa o rym a phenodi unigolion a fu ar un adeg yn gweithio ym myd busnes corfforaethol i rolau allweddol; o ganlyniad, mae’n amhosib gweithio dros natur.” – Dienw
- “Un rhwystr sylweddol sy’n atal cymunedau rhag cyfranogi mewn cyfleoedd cyllid natur yw diffyg gwybodaeth gredadwy a diffyg ymddiriedaeth yn y marchnadoedd [...] Mae’n hawdd i gymunedau deimlo’n anghyfforddus am fuddsoddiadau sy’n gallu peryglu eu treftadaeth a’u diwylliant lleol. – Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru

**Dosbarthiad grym: “**Ychydig o bwerau sydd gan lywodraeth leol i arwain neu gyfarwyddo buddsoddiad ar lefel prosiect/safle, gan fod llawer o’r penderfyniadau rheoli tir perthnasol yn cael eu gwneud y tu allan i’r system gynllunio. Mae hyn yn ei gwneud hi’n anoddach i’r llywodraeth arwain buddsoddiad i’w blaenoriaethau a’i thargedau, gan arwain at risg o greu tensiynau ymysg rhanddeiliaid lleol. Mae’r cyfan yn pwysleisio pa mor bwysig yw ymgysylltu’n llawn â chymunedau lleol ar gyfer atebion cynaliadwy.” – RSPB Cymru

**Rhwystrau seilwaith: “**Mae diffyg datblygiad seilwaith marchnad ar gyfer gwasanaethau ecosystem yng Nghymru yn rhwystr arall. Er bod diddordeb cynyddol mewn marchnadoedd gwasanaethau ecosystem, megis credydau carbon ac unedau bioamrywiaeth, dydy’r seilwaith sydd ei angen i gefnogi’r marchnadoedd hyn – fel llwyfannau masnachu, cofrestrfeydd a systemau dilysu – ddim wedi’u datblygu’n ddigonol o hyd.” – National Landscapes Association

**Cynyddu Ymdrechion Adfer Natur:**

- “Mae llawer o gymunedau yng Nghymru eisoes yn ymwneud ag adfer natur, ond mae ehangu’r ymdrechion hyn yn hanfodol i fynd i’r afael â’r argyfyngau natur a hinsawdd. Mae’r ffocws ar sut i gyflymu ac ehangu’r mentrau hyn.” – Cyfoeth Naturiol Cymru
- “Mae diffyg consensws o ran y weledigaeth o sut y dylai/sut y gallai ein tirwedd edrych. Mae’r diffyg gweledigaeth hwn ar raddfa yn ymwneud â diffyg gallu i ddarparu cyfleoedd ar raddfa fawr, ac mae wedi arwain at ddarpariaeth adfer natur ynysig wedi’i chyfyngu gan heriau cyllid cyhoeddus, ac yn aml iawn heb feintioli manteision.” – Fforwm Arfordir Sir Benfro
- “Bwlch ariannu sylweddol yng Nghymru, gyda dim ond 3% o ddyngarwch amgylcheddol y DU wedi’i gyfeirio at Gymru, gan arwain at heriau wrth gynyddu graddfeydd ymdrechion cadwraeth.” – Rewilding Britain

## Cwestiwn 6: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt.

24 o 42 ymateb.

**Crynodeb:** Cyfeiriodd ymatebwyr i gwestiwn chwech at botensial dihysbydd tiriogaethau morol Cymru, tirweddau dynodedig a modelau ariannu arloesol i hyrwyddo adfer natur, gan bwysleisio'r angen am farchnadoedd tryloyw, arweinyddiaeth o du'r llywodraeth a chydweithio. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch cydbwyso blaenoriaethau amgylcheddol â phwysau economaidd, gan alw am atebion sy'n cael eu sbarduno gan dechnoleg, geirfa gyffredin a dulliau cynhwysol o reoli ecosystemau sy'n gallu ehangu'n gyflym.

**Dadansoddiad thematig**

**Tiriogaeth forol a buddsoddiad:**

- "Mae tiriogaeth forol Cymru yn fwy na'r arwynebedd tir ac mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer enillion economaidd cynaliadwy, tegwch a chydnerthedd. Gyda hyn mewn golwg, yr awgrym yw ehangu ffocws yr egwyddorion i gynnwys defnyddio'r môr lle bynnag y bo modd (er enghraifft, dim ond defnydd tir sy'n cael ei grybwyll yn egwyddor 1)." – y Gymdeithas Cadwraeth Forol
- "Byddem yn croesawu rhoi ystyriaeth i'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan dwf datblygiad ynni morol o gwmpas Cymru. Gallai'r datblygiadau hyn gynnig opsiynau ariannu a mecanweithiau i'w hystyried er mwyn cefnogi cymunedau arfordirol ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig." – Tirweddau Cymru
- "Cynlluniau Credyd Carbon Morol: Mae hynny'n gofyn am ymrwymiadau i ddatblygu cynlluniau credyd carbon morol tryloyw i gydnabod rôl cynefinoedd morol wrth liniaru newid hinsawdd." – Rewilding Britain

**Tirweddau Dynodedig: "**Mae Tirweddau Dynodedig Cymru a'u timau mewn sefyllfa dda i rannu profiad o'u gwaith gyda ffermio a rheoli tir sy'n gyfeillgar i natur, ac atebion ar sail natur sydd i gyd yn cynnig potensial i fuddsoddwyr […] Mae tirweddau dynodedig yn hanfodol o safbwynt cyflenwi atebion ar sail natur, gan ddarparu gwasanaethau hanfodol, megis atafaelu carbon, lliniaru llifogydd a gwarchod bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae'r potensial ganddynt i gynnig hyd yn oed mwy drwy wasanaethu fel meysydd allweddol ar gyfer targedu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'i gyfuno â phrosiectau cyllid a threialu eraill gyda'r nod o gefnogi ymdrechion adfer natur ehangach mewn ystod o gynefinoedd ar draws y tirweddau." – Tirweddau Cymru

**Dysgu oddi wrth Ranbarthau eraill: "**Awgrymu dysgu o gynlluniau sefydledig ym Mhrydain Fawr a'r Alban, gan roi cyd-destun iddyn nhw ar gyfer Cymru." – Rewilding Britain

**Arwain drwy esiampl:** "Mae angen i Lywodraeth Cymru arwain drwy esiampl a gweithredu'r egwyddorion hyn ar draws prosiectau ar ei safleoedd ei hun. Er enghraifft, sut y bydd tir Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ddefnyddio? Sut maen nhw'n mynd i weithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr eraill fel Ystad y Goron? Byddai darparu cyfarwyddyd a galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnwys tir cyhoeddus mewn cynlluniau credyd amgylcheddol a gweithio mewn partneriaeth ag eraill ar dir trydydd parti yn ysgogi adnoddau ychwanegol, yn caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru ddangos arferion gorau ac i gefnogi/hwyluso eraill drwy weithio mewn partneriaeth. Mae gan Gymru ôl troed byd-eang, o ran allforion a mewnforion, wrth ystyried ein heffaith ar natur a'r hinsawdd. Er bod uchelgais i gadw credydau yng Nghymru yn gymeradwy a bod hynny'n ddewis sy'n cael ei ffafrio, ni ddylai hyn ddigwydd ar draul mewnfuddsoddi gan fusnesau corfforaethol a allai elwa ar farchnad Cymru." – RSPB Cymru

**Canllawiau ar ychwanegedd: "**Er bod yr egwyddorion yn cynnig agwedd ar ychwanegedd, byddai'r rhain yn cael eu cryfhau ymhellach pe bai canllawiau ychwanegol ar reolau ynghylch pentyrru/bwndelu gwasanaethau ecosystem. Er mwyn i brosiectau gynhyrchu refeniw sy'n ddigonol i dalu costau, yn aml mae angen pentyrru refeniw neu fwndelu deilliannau, fel bioamrywiaeth ac amddiffyn arfordirol." – Ystad y Goron

**Datblygu'r Farchnad: "**Cefnogi marchnadoedd gwasanaethau ecosystem aeddfed gydag arwyddion clir am brisiau a sicrwydd hirdymor yn y farchnad. Annog buddsoddi ac integreiddio rhwng marchnadoedd amgylcheddol. Ffocws ar werthoedd gwasanaethau ecosystem lleol a rhanbarthol, gan sicrhau uniondeb amgylcheddol ac osgoi gwyrddgalchu neu gyfrif dwbl." – Anaerobic Digestion and Bioresources Association

**Cyllid ar sail Natur a Chyllid Cadwraeth:**

- "Ein hawgrym ni yw nad Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy yw'r rhain, ond yn hytrach 'Egwyddorion ar gyfer Cyllid ar sail Natur'. Mae Cyllid Cynaliadwy yn faes eang iawn o'r farchnad. Mae'n cwmpasu holl Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ac yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol i'r perwyl hwnnw. Efallai bod defnyddio'r teitl yn y cyd-destun hwn yn gamarweiniol, a gallai gyflwyno rhwystrau i fentrau ehangach ar gyfer polisi buddsoddi datganoledig sy'n gysylltiedig ag effaith ar yr economi buddsoddi a lles yng Nghymru." – Banc
- "Mae WWF UK yn archwilio gwahanol fodelau o fuddsoddiad cynaliadwy o dan ein diffiniad ni o 'gyllid cadwraeth'. Mae cyllid cadwraeth yn faes datblygol sy'n canolbwyntio ar ddenu a rheoli cyfalaf i gefnogi cadwraeth adnoddau naturiol, megis tir, dŵr a bioamrywiaeth. Mae'n cynnwys creu mecanweithiau ariannol a chyfleoedd buddsoddi sy'n cydweddu â deilliannau amgylcheddol, cymdeithasol ac ariannol. Ymhlith agweddau allweddol cyllid cadwraeth mae:
    - Denu cyfalaf preifat: Denu buddsoddiadau preifat i ariannu prosiectau cadwraeth.
    - Modelau ariannol arloesol: Datblygu cyfryngau ariannol newydd, fel bondiau gwyrdd neu gronfeydd ymddiriedolaeth cadwraeth, i gefnogi mentrau cynaliadwy.

    - Partneriaethau: Cydweithio gyda rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys llywodraethau, cyrff anllywodraethol a buddsoddwyr preifat, i drosoli adnoddau ac arbenigedd." – WWF Cymru
- "Mae angen dilysu unrhyw gredyd sy'n cael ei ganiatáu, ac iddo fod yn fesuradwy a chyfnewidadwy, ac mae angen ymdrech i wneud yn siŵr nad y ffordd hawsaf o wrthbwyso carbon – creu coetir gwrthgynhyrchiol heb roi sylw dyledus i'r effeithiau ehangach – yw'r dull diofyn [...] Mae angen hefyd ystyried yn briodol sut y bydd 'cyllid gwyrdd' yn rhyngweithio â mecanweithiau cyllido masnachol eraill yn y dyfodol. Mae ymgorffori meini prawf ar sail natur yn y broses ariannu prif ffrwd yn meddu ar botensial sylweddol i effeithio ar fentrau amaethyddol, yn enwedig o ran busnesau bach, sydd yn methu â darparu na fforddio adfer natur heb amharu ar eu cynaliadwyedd eu hunain." -Dienw

**Llais Natur: "**Mae anghenion natur wedi'u nodi'n benodol yng ngweledigaeth a gwerthoedd craidd Partneriaeth Dalgylch yr Wysg, ac yn yr ystyr hwn, rydyn ni'n unigryw [...]  (mae pwys cyfartal i lais natur ymhlith aelodau'r Bartneriaeth. Prin y ceir cyfeiriad at natur a'i anghenion [...] yn nogfen yr Egwyddorion, ac mae hynny'n beth hollbwysig i'w gynnwys." – Partneriaeth Dalgylch yr Wysg

**Geirfa Gyffredin: "**Byddai geirfa gyffredin o dermau, yn enwedig ar gyfer cysyniadau fel "atebion ar sail natur" a "gwasanaethau ecosystem" hefyd yn fuddiol. Mae termau yn cael eu defnyddio, y naill am y llall, a gall hynny arwain at ddryswch a diffyg cysondeb. Byddai terminoleg gyffredin yn creu fframwaith mwy cyson ledled Cymru a thu hwnt, gan ei gwneud hi'n haws i randdeiliaid ymgysylltu'n ystyrlon a chydweddu eu gweithredoedd â'r egwyddorion. – Cyfoeth Naturiol Cymru

**Y baich ariannol presennol: "**Y broblem sy'n wynebu llywodraeth leol yw'r tensiwn rhwng cydymffurfio ag 'Egwyddorion/Rheolau Gwyrdd' a chydbwyso blaenoriaethau cyllidebol e.e. ysgolion, yr heddlu ac ati [...] Mae diffyg mawr yn y gyllideb eisoes sy'n golygu codi cyfraddau'r dreth gyngor, a chynyddu'r baich ariannol ar berchnogion tai sydd eisoes yn dioddef effeithiau chwyddiant uchel e.e. costau ynni. Wrth edrych yn ehangach ar y cynnig hwn, a chydbwyso manteision dynol gofalu am y byd naturiol yn erbyn yr anfanteision sy'n deillio o'r costau ariannol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'r Senedd yn rhoi gormod o bwyslais ar gadwraeth amgylcheddol ar hyn o bryd." – Neil McKenzie

**Trosoli Technoleg ac Arloesi: "**Gall technoleg wella sut y caiff atebion ar sail natur eu gweithredu a'u monitro yn sylweddol. Gall defnyddio delweddau lloeren, dronau a thechnolegau synhwyro o bell wella effeithlonrwydd a chywirdeb monitro deilliannau gwasanaethau ecosystem, megis atafaelu carbon neu enillion bioamrywiaeth. Gallai Llywodraeth Cymru hefyd gefnogi datblygiad platfformau digidol sy'n hwyluso masnachu credydau gwasanaethau ecosystem, cynyddu tryloywder a lleihau costau trafodiadau. Byddai'r datblygiadau arloesol hyn yn cryfhau marchnadoedd gwasanaethau ecosystem Cymru ac yn denu mwy o fuddsoddiad drwy sicrhau mwy o atebolrwydd a hwyluso mynediad." – National Landscapes Association

## Cwestiwn 7: Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol yr Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy ar y Gymraeg?

18 o 42 ymateb.

Mae'r ymatebion yma yn gorgyffwrdd yn sylweddol â'r ymatebion i gwestiynau blaenorol, lle ceir cyfeiriadau at "gydweddu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a chefnogaeth i'r nod llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'." Mae un ymateb yn nodi fel hyn: "O'i weithredu'n dda, gall cyllid gwyrdd gefnogi a gwella cymunedau gwledig, y cymunedau sydd yn draddodiadol wedi bod yn gadarnleoedd i'r Gymraeg. Gall yr holl gynnwys fod yn ddwyieithog ac mae'n rhaid i unrhyw fuddsoddwyr gael eu harwain at bwysigrwydd y Gymraeg, gyda'r fframweithiau'n canolbwyntio ar fanteision diwylliannol, cymunedol a chymdeithasol."

Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn cyfeirio at adroddiad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg o'r enw 'Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg'. Dywed yr adroddiad, "Yng nghyd-destun Cymru, mae mynd i'r afael ag effaith yr argyfwng hinsawdd ar y Gymraeg yn gofyn am ddulliau cyfannol sy'n cydnabod cydgysylltiad iaith, diwylliant a'r amgylchedd. Rhaid i ymdrechion i liniaru effeithiau posibl yr argyfwng hwn ystyried anghenion lleiafrifoedd ieithyddol, tra dylai mentrau adfywio iaith ymgorffori strategaethau ar gyfer addasu i newidiadau amgylcheddol." Yn ôl data cyfrifiad 2021, mae tua 43.1% o'r sector amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yn siaradwyr Cymraeg. "Mae'r Comisiwn felly yn cefnogi'n ddiamwys y fferm deuluol sydd yn cynhyrchu bwyd ochr yn ochr ag ysgwyddo dyletswyddau amgylcheddol. Mae cynhyrchu bwyd yn cynnal gweithgareddau economaidd eraill yng nghefn gwlad mewn meysydd sydd hefyd yn aml yn cyflogi nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg." Mae'r Comisiwn felly'n argymell fel a ganlyn: "Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi amaethyddol."

Yn yr un modd, mae'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi, "O dan ddull seiliedig ar leoedd, yr allwedd i gynyddu cyfoeth cymunedol yw cynnwys cymunedau yn y gwaith o gynllunio defnydd tir ar gyfer natur a hyrwyddo sefydliadau lleol neu fentrau cymdeithasol fel y model busnes o ddewis ar gyfer rheoli tir ar gyfer natur, fel y galwyd amdano gan Cwmpas. Fodd bynnag, roedd adroddiad 'Ein Tir' gan y Sefydliad Materion Cymreig yn 2022 yn dangos mai cymunedau yng Nghymru yw'r rhai sydd wedi'u grymuso leiaf yn y DU, o ran mynediad i dir. Roedd y Comisiynydd yn cefnogi'r alwad yn adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig, sef y dylai cymunedau gael yr hawl statudol cyntaf i wrthod pan mae bwriad i werthu neu drosglwyddo asedau megis tir."

Mae gwladychu corfforaethol yn cael ei nodi fel pryder allweddol o ran effeithiau negyddol ar y Gymraeg y gallai'r egwyddorion fynd i'r afael â nhw yn haws. "Nodwyd risg y byddai canfyddiad o wladychu corfforaethol sy'n cynnwys anwybodaeth o'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, a diffyg cefnogaeth ohonyn nhw. Awgrymwn y dylai egwyddorion 2 a 3 gynnwys geiriad sy'n mynd i'r afael â hynny." Mae Cyngor Sir Fynwy hefyd yn dweud bod "angen i'r egwyddorion sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ymwneud â'r Gymraeg ac y dylid manteisio ar gyfleoedd i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg drwy fanteision llesiant diwylliannol cyflenwi. Gan

sicrhau bod cyfleoedd i gymunedau gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi manteision yn briodol i'r iaith ac yn ddwyieithog ledled y wlad."

Mae Adran Amgylchedd Naturiol Cyngor Abertawe yn datgan: "Gallai'r Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy gael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg drwy sicrhau bod prosiectau a buddsoddiadau ar sail natur yn ystyried ac yn cefnogi cymunedau Cymraeg. Efallai y bydd cyfleoedd i hybu effeithiau cadarnhaol drwy gynnwys ystyriaethau o'r Gymraeg yn benodol yn yr egwyddorion, megis gofyn am gyfathrebu dwyieithog a blaenoriaethu prosiectau sy'n cefnogi ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith. Fodd bynnag, roedd un ymateb arall yn anghytuno, gan ddweud fel hyn: "nid oes unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol nac unrhyw gyfleoedd i liniaru effeithiau niweidiol."

## Cwestiwn 8: Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy [er mwyn darparu ar gyfer y Gymraeg yn well]

13 o 42 ymateb.

Mae gorgyffwrdd sylweddol o ran ymatebion i'r cwestiwn hwn ac ymatebion a drafodwyd yn flaenorol yn y dadansoddiad hwn. Er enghraifft, sylwadau gan Undeb Amaethwyr Cymru, sy'n cynnwys galwadau am eglurder, rheoleiddio, gwarchod defnydd tir ac iawndal teg. Yn berthnasol i gwestiwn saith, mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn tynnu sylw at y ffaith fod "busnesau Cymraeg a Chymreig fel arfer yn fach/canolig, felly mae'n bosibl iddyn nhw fod o dan anfantais wrth gystadlu â buddsoddwyr o ddinasoedd mwy a buddsoddwyr rhyngwladol. Gallai hyn olygu bod yr iaith Gymraeg yn dod yn llai amlwg ymhlith busnesau a gweithgareddau newydd sy'n deillio o'r buddsoddiad sy'n codi yn sgil yr Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy." Yn yr un modd, dywed ymateb arall, "Mae angen ffocws ar sicrhau bod anghenion unigryw Cymru – fel diogelu ei thirwedd, ei diwylliant, ei hiaith a'i threftadaeth unigryw – yn cael eu cynrychioli." Mae un ymateb yn pwysleisio "y byddai Llywodraeth Cymru yn gorfod ailystyried yr Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy yn llwyr."

## Datganiad ar y camau nesaf

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy gan ystyried yr adborth a ddaeth i law. Yn dilyn yr adolygiad, bydd Llywodraeth Cymru yn mireinio'r Egwyddorion. Yn ystod y cyfnod adolygu hwn, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn archwilio nifer o brosiectau peilot yng Nghymru i brofi gweithrediad yr Egwyddorion a chasglu mewnwelediadau pellach i sut y gall buddsoddiad preifat gefnogi adferiad natur yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cyllid cyfunol. Bydd y gwersi sy'n cael eu dysgu o ddefnyddio'r Egwyddorion ar brosiectau peilot hefyd yn cyfrannu at ddatblygu fframwaith cyfalaf naturiol.